# TWBERCWLOSIS AC AER GLÂN BANNAU BRYCHEINIOG

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

## TROSOLWG

Mae dysgwyr yn ystyried clefydau heintus, beth sy'n eu hachosi a sut y gellir eu gwella. Maent yn archwilio sut y cafodd pobl oedd â TB eu trin, e.e. mewn sanatoria fel Craig y Nos. Mae dysgwyr yn darganfod sut yr effeithiodd amodau byw pobl ar y risg o ddal TB. Maent yn ystyried y data ynghylch TB yn y byd heddiw ac yn edrych ar sut y gellir beio moch daear am ledaeniad TB mewn gwartheg. Yn olaf, mae dysgwyr yn cynnal arolygon o lygredd aer gan ddefnyddio cennau fel dangosyddion yn yr ardal leol ac yn cymharu eu canfyddiadau â rhai Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Defnyddiant eu casgliadau i ysgrifennu erthygl ar gyfer papur newydd ar-lein er mwyn amlygu ansawdd aer.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Offer mesur, e.e. pedomedr, tâp hir ar gyfer mesur mewn chwaraeon.
Dulliau o gynnal arolygon cennau, e.e. tâp mesur, pensil neu feiro sy'n dal dŵr, cwmpawd, ffôn clyfar, camera neu dabled.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BETH YW CLEFYD HEINTUS?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n ystyried clefydau heintus, beth sy'n eu hachosi a sut mae modd eu gwella, yn y dasg hon.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiwn canlynol a theipio eu hateb yn y blwch.

**Cwestiwn ffocws**

- Beth mae 'clefyd heintus' yn ei olygu i chi?

## Sgrîn 4

Yma, rhoddir diffiniad o glefyd heintus. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor debyg yw hwn i'ch diffiniad chi?
- Pa mor wahanol yw hwn i'ch diffiniad chi?
- Pa eiriau sydd yn y diffiniad nad ydych chi'n eu deall yn iawn? Sut gallwch chi ddarganfod beth maen nhw'n ei olygu?

## Sgrîn 5

Ar y sgrîn hon, cyflwynir gwybodaeth am haint ac organebau pathogenig. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa glefydau heintus ydych chi'n gwybod amdanynt?
- Pa glefydau heintus ydych chi wedi'u cael? Pryd? Sut beth oedd y clefyd? Am ba hyd y cawsoch y clefyd?
- Sut wnaethoch chi gael gwared ar eich clefyd heintus?

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod pa rai o'r clefydau a restrir, sy'n heintus.

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am y ffyrdd y gellir atal lledaeniad clefydau heintus (ar y sgrîn) a phenderfynu gyda phwy maen nhw'n cytuno a pham.

## Sgrîn 8

Ar y sgrîn hon, rhoddir ffyrdd o wella clefydau heintus. Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu bod ganddyn nhw annwyd drwg a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ddylech chi ei wneud er mwyn ceisio gwella'r annwyd? Pam?

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr fod y ffordd rydyn ni'n defnyddio meddyginiaethau, fel gwrthfiotigau, yn dibynnu ar y math o bathogen sy'n achosi'r clefyd. Yna, darllenwch weddill y testun a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ar gyfer beth rydyn ni'n defnyddio gwrthfiotigau? Pam?
- Pryd na ddylem ni ddefnyddio gwrthfiotigau? Pam?
- Pam ydych chi'n meddwl bod cymaint o fywydau wedi'u hachub yn yr Ail Ryfel Byd gan y defnydd o benisilin?

## Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr i gyrchu'r dudalen we: Causes of death over 100 years - Office for National Statistics (Saesneg yn unig). Yna, gwahoddwch nhw i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth oedd prif achos marwolaethau mewn gwrywod a benywod rhwng 1915 a 1920?
- Faint o farwolaethau oedd yna yn 1915?
- Ym mha flwyddyn roedd y nifer fwyaf o farwolaethau? Faint o farwolaethau oedd yna?
- Defnyddiwyd y gwrthfiotig streptomycin am y tro cyntaf yn y DU i wella twbercwlosis (TB) ym 1942. Sut gallwch chi weld ei effaith yn y data?
- Beth wnaeth eich synnu am y data? Pam y gwnaeth hyn eich synnu?

TASG 2

# BRWYDRO YN ERBYN TWBERCWLOSIS (TB)

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw yn y dasg hon yn archwilio sut cafodd pobl â TB eu trin a sut roedd amodau byw pobl yn effeithio ar y risg o ddal TB.

## Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth am dwbercwlosis (TB) fel haint bacteriol.

## Sgrîn 4

Yma, cyflwynir Castell Craig y Nos (plasty gothig Fictoraidd ym Mhowys) fel sanatoriwm (iechydfa) ar gyfer cleifion TB o 1922 ymlaen.

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr fod TB, ar ddechrau'r 1900au, yn endemig mewn trefi a dinasoedd a'i fod yn lladd miloedd o bobl. Rhoddwyd pobl y credwyd bod ganddynt TB mewn sanatoria. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod pobl â TB yn cael eu rhoi mewn sanatoriwm?
- Pam ydych chi'n meddwl bod llawer mwy o achosion o TB mewn trefi a dinasoedd nag yng nghefn gwlad?

## Sgrîn 6

Cyflwynir ffynhonnell hanesyddol am amodau byw ym Merthyr Tudful ym 1850 ar y sgrîn. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam y disgrifiwyd Merthyr fel hyn, yn eich barn chi?
- Pa ddiwydiannau ydych chi'n meddwl oedd ym Merthyr ar yr adeg hon? Pam?
- Sut gwnaeth y diwydiannau hyn lygru'r aer?
- Sut y gallai llygredd aer wneud TB yn waeth?

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau er mwyn ystyried y ddelwedd.

## Sgrîn 8

Ar y sgrîn hon, disgrifir amodau byw mewn trefi diwydiannol ar ddiwedd y 1800au a dechrau'r 1900au. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod yr amodau byw hyn wedi helpu i ledaenu TB?
- Ym mha ffordd arall y gallai amodau byw pobl fod yn wael? Sut y gallai'r amodau gwael hyn wneud pobl yn sâl, yn eich barn chi?

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr fod TB erbyn 1922 yn parhau i fod yn her iechyd cyhoeddus sylweddol. Sanatoriwm oedd yr enw ar Graig y Nos, ond roedd ganddo holl nodweddion carchar ar gyfer plant oedd yn wael.

Dangoswch y fideo Children of Craig-y-nos (ychydig dros 5 munud). Yna, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut brofiad oedd byw yn y sanatoriwm, yn eich barn chi?
- Sut roedd y plant yn teimlo, yn eich barn chi? Pam?

## Sgrîn 10

Ar y sgrîn hon, rhoddir manylion ynghylch sut y cafodd plant eu profi am TB gan ddefnyddio golchiad stumog. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen am hyn a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl na fyddai plant yn hoffi cael y prawf hwn?
- Roedd rhai o blant Craig y Nos mor ifanc â 6 mis oed. Yn eich barn chi, sut fyddai'r plant hyn yn teimlo wrth gael y prawf hwn? Pam?

## Sgrîn 11

Yma, rhoddir gwybodaeth am ddefnyddio moch cwta ar gyfer profi'r golchiad stumog am TB. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw eich barn am ddefnyddio moch cwta ar gyfer profi am TB?
- Beth yw eich barn am ddefnyddio anifeiliaid i brofi am unrhyw glefydau dynol? Pam?
- Sut dylen ni drin anifeiliaid? Pam ydych chi'n meddwl hyn?
- Pa ganran o'r plant a brofwyd, oedd â TB?
- Beth ddylai fod wedi digwydd i'r plant nad oedd ganddynt TB? Ydych chi'n meddwl bod hyn wedi digwydd? Pam?

### Sgrîn 12

Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu eu bod nhw'n blentyn sy'n cael ei anfon i'r sanatoriwm, gan ddefnyddio'r hyn maen nhw wedi'i ddarganfod am TB a bywyd yng Nghraig y Nos. Yna, gofynnwch iddynt ysgrifennu dyddiadur neu wneud flog am eu bywyd cyn, yn ystod ac ar ôl treulio amser yn y sanatoriwm. Dylai'r cwestiynau sydd ar y sgrîn helpu dysgwyr i gynnwys manylion perthnasol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut fywyd oeddech chi'n ei gael cyn i chi gael eich anfon i'r sanatoriwm? Sut oeddech chi'n teimlo? Pam?
- Beth ddigwyddodd pan glywsoch am y tro cyntaf eich bod yn mynd i'r sanatoriwm? Sut oeddech chi'n teimlo?
- Beth ddigwyddodd i chi yn y sanatoriwm? Pam y digwyddodd hyn?
- A oedd unrhyw eiliadau brawychus iawn? Beth oedden nhw? Sut wnaethoch chi ymdopi?
- Sut oeddech chi'n teimlo pan gawsoch eich rhyddhau o'r sanatoriwm?

TASG 3

## TB HEDDIW

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i archwilio data am TB yn y byd heddiw, edrych ar sut y gellir beio moch daear am ledaeniad TB mewn gwartheg a chynnal arolygon o lygredd aer gan ddefnyddio cennau fel dangosyddion.

### Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr fod twbercwlosis (TB) yn parhau i fod yn fygythiad iechyd byd-eang mawr a'r ail brif achos marwolaeth oherwydd asiant heintus ledled y byd. Ar y sgrîn, rhoddir rhai ffeithiau gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).

### Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu'r wefan TB profile (Saesneg yn unig) gan Sefydliad Iechyd y Byd a chymharu data o'r DU â data gwlad sy'n datblygu'n economaidd. Yna, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r prif wahaniaethau yn nifer yr achosion o TB rhwng y ddwy wlad?
- Pam ydych chi'n meddwl bod cymaint o wahaniaeth?
- Beth yw'r duedd yn nifer yr achosion o TB yn y ddwy wlad?
- Sut mae HIV i'w weld yn effeithio ar nifer yr achosion o TB? Pam ydych chi'n meddwl fod hyn yn digwydd?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr ein bod ni yng Nghymru yn monitro nifer yr achosion o TB, gan fod TB yn glefyd 'hysbysadwy'. Bob blwyddyn, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio ac yn ysgrifennu Adroddiad Blynyddol Twbercwlosis yng Nghymru.

Gwahoddwch y dysgwyr i gyrchu adroddiad 2021 a darllen 1.2 Canfyddiadau a thueddiadau allweddol: Adroddiad Blynyddol Twbercwlosis yng Nghymru. Yna, gwahoddwch nhw i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam fod Cymru yn parhau i fod o fewn diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o wlad sydd â nifer isel o achosion?
- Beth yw'r duedd yn nifer yr achosion o TB?
- Faint o fenywod gafodd TB yn 2021?
- Beth ydych chi'n meddwl yw ystyr 'ffactor risg cymdeithasol'?
- Sut mae tlodi yn effeithio ar nifer yr achosion o TB yng Nghymru? Pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn digwydd?

## Sgrîn 6

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth am TB mewn gwartheg a TB buchol a'r ddadl am rôl moch daear wrth drosglwyddo TB buchol.

## Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i ymchwilio ar-lein i ddarganfod mwy am y dadlau ynghylch difa moch daear er mwyn atal lledaeniad TB buchol. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am y cwestiynau canynol er mwyn helpu eu hymchwil.

- Pa fath o wefannau fydd orau i'w defnyddio? Pam?
- A allai'r wybodaeth/data fod yn unochrog? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth/data yn eich barn chi? Sut allech chi ddarganfod?

Unwaith y bydd y dysgwyr wedi gwneud eu hymchwil, gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw eich barn am ddifa moch daear er mwyn helpu i atal lledaeniad TB buchol?
- I ba raddau ydych chi'n meddwl y bydd difa moch daear yn gweithio? Pam?

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr fod llygredd aer yn cael effaith andwyol ar TB. Gall hefyd wanhau'r ysgyfaint fel bod pobl yn fwy tebygol o ddal TB.

Ar ddechrau'r 1900au, roedd llygredd aer yn broblem fawr yn y Gymru ddiwydiannol. Rydyn ni'n mynd i ddarganfod gwybodaeth am lygredd aer heddiw.

## Sgrîn 9

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth am gennau a'u sensitifrwydd i lygryddion aer.

## Sgrîn 10

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i wneud arolwg cennau mewn dwy ardal, er mwyn cymharu ansawdd yr aer. Yn gyntaf, byddant yn gwneud arolwg ger yr ysgol ac yna un ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

## Sgrîn 11

Y tabl a roddir yw'r ffordd symlaf o edrych ar gennau ac ansawdd yr aer. Fodd bynnag, rhoddir dolen i ganllaw adnabod hefyd: CEN - Canllaw Adnabod.

## Sgrîn 12

Cyflwynwch y wybodaeth y bydd angen i'r dysgwyr ei chasglu wrth iddyn nhw wneud eu harolwg cennau – fel y dangosir ar y sgrîn.

## Sgrîn 13

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i gynnal eu harolwg cennau ger yr ysgol.

## Sgrîn 14

Cyfunwch ganfyddiadau'r dosbarth cyfan. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fath o gen y gwelsoch chi fwyaf ohono? Pam ydych chi'n meddwl bod mwy o'r math hwn o gen? Beth mae hyn yn ei ddangos i chi am ansawdd yr aer?
- A yw cyfrif y nifer o bob math o gen yn ddigon i roi casgliadau cadarn i chi am ansawdd yr aer? Pam? Beth allech chi ei wneud er mwyn sicrhau eich bod yn dod i gasgliadau cadarn?
- Ar gyfer pob math o gen: crofennog, deiliog a thrwchus:
    - Ble wnaethoch chi ddod o hyd i'r mwyafrif ohonyn nhw?
    - Sut cawsant eu dosbarthu, o ran cyfarwyddiadau'r cwmpawd?
    - Sut cawsant eu dosbarthu, o ran y prifwynt? Beth mae hyn yn ei ddweud wrthych?
- Pa gasgliadau allwch chi eu tynnu o'ch canfyddiadau yn yr ardal leol?

## Sgrîn 15

Dywedwch wrth y dysgwyr bod angen iddynt yn awr ailadrodd yr arolwg cyfan ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – fel y disgrifir ar sgrîn 12. Yna, cymharwch yr hyn a ganfyddwyd ganddynt am ansawdd yr aer yn yr ardal leol â'r hyn a ganfyddwyd ganddynt yn y Parc Cenedlaethol.

Byddant yn defnyddio eu canfyddiadau i ysgrifennu erthygl am ansawdd yr aer ar gyfer papur newydd lleol ar-lein.

## Sgrîn 16

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i gynnal eu harolwg cennau ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

## Sgrîn 17

Er mwyn tynnu eu casgliadau, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau ffocws sydd ar Sgrîn 14. Yna, gallant gymharu canfyddiadau'r ddwy ardal.

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio eu casgliadau i ysgrifennu erthygl am ansawdd yr aer ger yr ysgol o'i gymharu â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Ar ôl cwblhau'r erthygl, cynigiwch hi i bapur newydd ar-lein lleol er mwyn ei chyhoeddi.

Ar y sgrîn, rhoddir manylion am y mathau o faterion y gallent fod wedi eu darganfod. Hefyd, rhoddir syniadau ynghylch y pethau y gallent eu cynnwys yn eu herthygl.

Os dymunwch ddatblygu'r syniadau am lygredd aer ymhellach, gallech edrych ar y gwahanol nwyon a gynhyrchir gan ddiwydiannau lleol, sut y ceisir lleihau eu heffaith a pha effeithiau y gallent eu cael ar yr amgylchedd.